**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020**

<u>Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:</u>

Fel y'i nodir yn adran "Cefndir a Diben" adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, o 1 Medi 2020, nid oes gan ddeintyddion sylfaen gontract cyflogaeth gyda hyfforddwr cymeradwy mwyach. Yn hytrach, bydd eu contract cyflogaeth gydag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o dan gyfarwyddyd pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a fydd yn gweithredu fel un cyflogwr arweiniol dros bob deintydd sylfaen yng Nghymru.

Dyma'r unig newid i'r polisi ac mae'n newid o natur dechnegol a gweinyddol. Fodd bynnag, rhaid i'r newid gael ei adlewyrchu yn y prif Reoliadau a dyna pam y mae'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau yn pennu: "Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn sicrhau bod y darpariaethau deddfwriaethol cymwys yn cyd-fynd â'r newid mewn polisi."

Gallai'r datganiad yn y Memorandwm Esboniadol, sef "The 2020 Regulations support an administrative change and not a change in policy", fod wedi bod yn gliriach, yn yr ystyr nad yw'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn adlewyrchu newid o sylwedd i'r polisi. Gallai'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau hefyd fod wedi bod yn gliriach i gynnwys geiriad i egluro bod y newid i'r polisi yn dechnegol ac yn weinyddol o ran ei natur. Fodd bynnag, nid yw'r naill ddatganiad na'r llall yn anghywir.